# 2 CÂN Y FARI LWYD

## (*THE MARI LWYD SONG*)




2. Os na chawn ni gannad,
   R(h)owch glywad ar ganiad
   Pa fodd ma'r 'madawiad (x 3)
   Nos (h)eno.

3. Ni dorson ein crimpa
   Wrth groeshi'r sticila
   I ddyfod t(u)ag yma (x 3)
   Nos (h)eno.

4. Os o(e)s yna ddynion
   All dorri anglynion,
   R(h)owch glywad yn union (x 3)
   Nos (h)eno.

5. Os aethoch r(h)y gynnar
   I'r gwely'n ddialgar,
   O, codwch yn (h)awddgar (x 3)
   Nos (h)eno.

6. Y dishan fras felys
   Â phob sort o sbeisys,
   O, torrwch (h)i'n r(h)atus (x 3)
   Y Gwyla.

7. O, tapwch y baril
   A 'llengwch a'n r(h)ugul;
   Na rannwch a'n gynnil (x 3)
   Y Gwyla.

Tâp AWC 7. Recordiwyd Hydref 1953 gan William Morgan Rees (gweithiwr rheilffordd, g. 1883), Woodlands, Brynmenyn, ger Pen-y-bont ar Ogwr, sir Forgannwg. Hyd at tuag 1933 arferai WMR weld gwŷr yn 'canu gwasaila', gan ddwyn y Fari Lwyd allan, yn y pentrefi i'r gogledd-ddwyrain o Ben-y-bont (Coety, Bryncethin, etc.).